

CYLLIDBAU CYFUN RHANBARTH GOGLEDD CYMRU



CEFNDIR

Mae'r prosiect yn ei gyfnod cynnar ac wedi'i sefydlu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarth Gogledd Cymru i ddatblygu syniadau o amgylch y meysydd a nodir gan y Bwrdd i integreiddio a chyllidebau a rennir.

Mae Rheoliadau yn gofyn bod angen sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas â:

- Arfer swyddogaethau llety cartref gofal;
- Arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd;
- Swyddogaethau a fydd yn ymarfer ar y cyd o ganlyniad i'r asesiad a gyflawnir dan Adran 14 o'r Ddeddf, neu unrhyw gynllun a baratowyd dan adran 14A.

Mae'r Canllawiau Statudol sy'n cefnogi'r Ddeddf hefyd yn cyfeirio at sefydlu'r cyllidebau cyfun lle bo'n briodol ac yn rhestru'r meysydd canlynol:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia.
- Pobl ag anableddau dysgu.
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.
- Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd.
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

NODAU

Y nod yw datblygu Cytundeb i'w lofnodi gan y chwe cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydag amserlenni unigol wedi'u datblygu ar gyfer pob maes integreiddio a chyllideb gyfun. Mae'r meysydd canlynol wedi'u hadnabod fel man dechrau i archwilio mewn perthynas â datblygu cyllidebau cyfun:

- Cronfa Gofal Canolradd
 - Gwasanaethau Gofalwyr
 - Plant gydag Anghenion Cymhleth a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
 - Gwasanaethau Cymunedol - Cartrefi Gofal a Gofal Cartref (Gwynedd i beilota hyn yn yr ardal leol)
- Bydd y meysydd canlynol yn cael eu harchwilio hefyd:
- Byrddau Diogelu Rhanbarthol
 - Offer ac addasiadau

AMCANION

Diben yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaeth. Gellir, felly, ddisgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth.
- Gwella canlyniadau a iechyd a lles.
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Defnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol.

SHARON HINCHCLIFFE

Rheolwr Prosiect Gwasanaethau Integredig
Project Manager Integrated Services

Ffôn/Tel: 07500127723 / 01824 706216

ebost/email:

sharon.hinchcliffe@sirddynbich.gov.uk /

sharon.hinchcliffe@denbighshire.gov.uk